# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Hydref 2020

Amser: 09.30 - 10.10

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>Llyr Gruffydd AS (yn lle Rhun ap Iorwerth AS)<br>Andrew RT Davies AS<br>David J Rowlands AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhun ap Iorwerth; dirprwyodd Llyr Gruffydd ar ei ran.

## 2 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

2.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).

2.2 Gofynnodd Andrew RT Davies iddi gael ei nodi y byddai am i’r holl wybodaeth yn atodiad y Comisiynydd gael ei chyhoeddi yn hytrach na’i golygu. Fodd bynnag, barn y mwyafrif yn y Pwyllgor oedd y dylid golygu’r wybodaeth yn ymwneud â’r cyfarfod, gan ei fod o’r farn bod y crynodeb o’r materion a drafodwyd yn y cyfarfod, fel y’i nodir ym mharagraff 6.4 o adroddiad y Comisiynydd, yn ddigonol ar gyfer dealltwriaeth eglur o’r gŵyn a chanfyddiadau’r Comisiynydd yn yr achos hwn.